

# **Ymgynghoriad ar y Graddfeydd Ffioedd ar gyfer 2024-25**

Awst 2023

## Sut i ymateb

Ymatebwch erbyn 10 Hydref 2023 os gwelwch yn dda.

Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Ymgynghoriad Graddfeydd Ffioedd

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd

CF10 4BZ

Neu gellir eu cwblhau'n electronig a'u hanfon drwy e-bost i:

[post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod neu drwy ein ffonio ar 029 2032 0500.

## Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond hefyd deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, dylech ddweud wrthym pam fod yr wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n wybodaeth gyfrinachol yn eich tyb chi. Os cawn gais yn gofyn inni ddatgelu gwybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob math o amgylchiadau. Ni ystyrir bod ymwadiad cyfrinachedd a grëwyd yn awtomatig gan eich system TG, ohono'i hun, yn rhwymo'r Archwilydd Cyffredinol nac Archwilio Cymru.

Bydd data personol yn cael ei brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Lle mae data o'r fath o fewn cwrpas cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau deddfwriaeth diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae hyn yn debygol o olygu bod gwybodaeth sy'n ymwneud ag uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu tra bo enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu cadw'n ôl.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'n ofynnol i Archwilio Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n darparu ar gyfer peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ar gyfer y Gymraeg ar ein gwefan. Wrth adolygu'r ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu eich barn ar ôl i chi ystyried a oes unrhyw beth yn yr ymgynghoriad hwn sy'n tanseilio neu'n ategu'r gofyniad hwn. Byddem hefyd yn croesawu eich meddyliau ynglŷn ag unrhyw ddiwygiadau y gellid eu gwneud i ategu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

# Cynnwys

Sut i ymateb	2
Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data	2
Safonau'r Gymraeg	3
Rhagair	5
Yr Ymgynghoriad	8
Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)	12
Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol	13
Awdurdodau Unedol	13
Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol	14
Awdurdodau Tân ac Achub	14
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	15
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu	16
Cynghorau Tref a Chymuned ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn	17
Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol	18



# Rhagair

Byddwch yn gyfarwydd â'n hymgyngoriad blynyddol ar y graddfeydd ffioedd. Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i ni wneud hyn ar gyfer cyrff llywodraeth leol, ond rydym yn dewis ymgynghori'n fwy eang fel bod yr holl randdeiliaid yn cael cyfle i ymateb i'n cynigion ar gyfer ffioedd.

Roedd ymatebion i'n hymarfer ymgynghori yn 2022 yn awgrymu bod y raddfa amser ar gyfer ymgynghori (yn ystod mis Awst ac yn gynnar ym mis Medi) yn gryn her i rai cyrff. Felly rydym yn ymgynghori ychydig yn hwyrach eleni ac yn estyn terfyn amser ein hymgyngoriad tan 10 Hydref. Sylwer, er mwyn i ni gyflwyno ein Cynllun Ffioedd drafft ochr yn ochr â'n hamcangyfrif ar gyfer 2024-25 i Bwyllgor Cyllid y Senedd erbyn diwedd mis Hydref, na allwn roi estyniad pellach ar hyn.

Nid ydym yn gwneud ac ni chawn wneud elw o'n gwaith.

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod y ffioedd a godir gennym **yn methu bod yn uwch** na chost lawn cyflawni'r swyddogaeth y mae a wnelo'r ffi â hi. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar amcangyfrif o'n sylfaen gostau, y cymysgedd o sgiliau yr amcangyfrifir y bydd ei angen ar gyfer gwaith archwilio a nifer y diwrnodau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Mae Archwilio Cymru'n dal i fod yn benderfynol o gyfyngu i'r eithaf ar ffioedd archwilio gan hefyd sicrhau bod ansawdd ei waith archwilio'n dal i gyrraedd safonau trylwyr.

Fel gweddill y sector cyhoeddus, rydym yn wynebu pwysau sylweddol o ran costau staff. I Archwilio Cymru, caiff y rhain eu gwaethygu gan brinder gwirioneddol fyd-eang o ran gweithwyr archwilio a chyllid proffesiynol, yr ydym yn gweld adlewyrchiad ohono yn ein gallu i recriwtio a chadw staff cymwysedig. Mae costau staff yn rhoi cyfrif am dros 80% o'n sylfaen gostau ac ar gyfer 2022-23 a 2023-24, fe wnaethom ddyfarnu codiadau cyflog i'n staff a oedd ymhell islaw chwyddiant ac yn is na'r cyfartaleddau a welir mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus (3% a 4% yn y drefn honno). Rhaid i ni ddechrau mynd i'r afael â'r diffyg hwn yn 2024-25, yn enwedig o ystyried yr heriau ar gyfer recriwtio a chadw a deimlir ar draws y proffesiwn archwilio.

I helpu i wrthbwyso costau staff, rydym yn gwneud penderfyniadau anodd i leihau ein gwariant nad yw'n ymwneud â chostau staff. Rydym yn symud i swyddfeydd llai, rhatach yn Ne a Gogledd Cymru, rydym wedi lleihau ein costau teithio a chostau cysylltiedig yn sylweddol, ac rydym wedi cael gwared ar lwfansau ariannol yr oeddem yn arfer eu talu i staff. Trwy ein Hadolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol, mae gennym fecanwaith sefydledig i herio ein model gweithredu ac i adnabod unrhyw gyfleoedd pellach ar gyfer arbedion a mesurau effeithlonrwydd.

Mae methiannau a pherfformiad gwael mewn gwaith archwilio cyhoeddus lleol yn Lloegr, ac yn y sector corfforaethol, yn dangos y gost a'r niwed enfawr a all ddeillio o fethiant i gyflawni gwaith archwilio o ansawdd da. Arweiniodd gwendidau'r sectorau hynny at nifer o adolygiadau<sup>1</sup> o archwilio a safonau proffesiynol newydd ledled y DU, sy'n cynyddu disgwyliadau o waith archwilio ac o ansawdd y gwaith archwilio hwnnw. I sicrhau bod y gyfundrefn archwilio cyhoeddus yng Nghymru'n dal i fod yn gryf ac effeithiol, rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ansawdd gwaith archwilio ac mae hynny'n ganolog i bob penderfyniad a wnawn.

I gynnal y buddsoddiad hwn yn 2024-25, ac i ymateb i bwysau cyflogau a phrisiau, bydd angen i ni gynyddu cyfraddau ein ffioedd 6.4% ar gyfartaledd yn 2024-25.

Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol a archwilir yn ei thalu'n dibynnu nid dim ond ar gyfraddau ein ffioedd ond ar faint y gwaith a'r cymysgedd o sgiliau sy'n ofynnol. Y llynedd, fe gofiwch i ni roi dull archwilio sylfaenol wahanol ar waith ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol, a oedd yn ofynnol yn ôl safonau archwilio rhyngwladol newydd. Roedd hyn yn golygu bod angen cymysgedd cyfoethocach, mwy costus o sgiliau a adlewyrchwyd mewn ffioedd uwch. Yn yr hydref, byddwn yn adolygu'r profiad yn ystod y flwyddyn gyntaf y defnyddiom ni'r dull newydd fel ein bod yn dysgu gwersi ac yn sicrhau mesurau effeithlonrwydd lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd cyfarwyddwyr a thimau archwilio, wrth reswm, yn siarad gyda'r holl gyrff a archwilir i egluro effaith gyfunol yr ymarfer hwnnw, a chyfraddau'r ffioedd a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn, ar lefel y ffi a fydd yn cael ei chodi ar bob corff yn 2024-25.

---

1 Adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; Adolygiad Kingman; ac Adolygiad Brydon

Gwyddom fod cyrff a archwilir yn bryderus ein bod yn cynyddu ein ffioedd ar adeg pan fo oedi gyda pheth o'n gwaith archwilio – y mae rhywfaint ohono i'w briodoli i'r materion recriwtio a chadw a ddisgrifir uchod. Rydym yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn. Mae cyfarwyddwyr archwilio mewn cysylltiad â chyrrff a archwilir i sicrhau dealltwriaeth gyffredin am gyflawni a disgwyliad cyffredin er mwyn i ni allu cydweithio mor effeithiol â phosibl.

Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad at y Fenter Twyll Genedlaethol yn rhad ac am ddim.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth, ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn.

Diolch yn fawr



**Adrian Crompton**

Archwilydd  
Cyffredinol Cymru

# Yr Ymgynghoriad

## Cyfraddau ffioedd 2024-25

Caiff cyfraddau arfaethedig ein ffioedd ar gyfer 2024-25 eu nodi yn **Arddangosyn 1**.

### Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2024-25

Gradd	Cyfradd (£ yr awr) 2024-25	Cyfradd (£ yr awr) 2023-24
Cyfarwyddwr Archwilio	181	170
Rheolwr Archwilio	138	130
Arweinydd Archwilio	111	107
Uwch Archwilydd	90	86
Archwilydd	64	62
Hyfforddai Graddedig	59	54
Prentis	46	40

Mae'r cynnydd cyfartalog o 6.4% y cyfeirir ato uchod yn gyfartaledd pwysedig yn seiliedig ar ein cymysgedd o staff ar y cyfan. Mae cynnydd gwirioneddol yn ôl gradd yn amrywio oherwydd ein bod, er mwyn ateb y gofyniad i godi 'dim mwy o dâl na'r gost lawn', yn cyfrifo cyfraddau yn seiliedig ar y staff gwirioneddol sydd yn eu swydd, ac felly mae'r cyfraddau'n darparu ar gyfer datblygiad cynyddrannol lle y bo'n berthnasol yn ogystal â chodiadau cyflog disgwylidig ar gyfer y flwyddyn.

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn craffu arnom o ran ein gwariant, ein perfformiad a'n cynlluniau ar gyfer y gyllideb ac mae'r tybiaethau yn yr ymgynghoriad hwn yn amodol ar gymeradwyaeth ganddo i'n Hamcangyfrif yn hydref 2023 a'n Cynllun Ffioedd yn gynnar yn 2024.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n gwariant yn ein [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23](#) a'n [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24](#).



## Hwyluso adolygiadau thematig a thraws-sector

Yn ein [ymgyngoriad ar ffioedd ar gyfer 2022-23](#), fe wnaethom nodi cynigion i newid y cyllid ar gyfer peth o'n gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrrff iechyd o ffioedd archwilio i Gronfa Gyfunol Cymru.

Fel y digwyddodd hi, nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cadarnhau, cyn cyflwyno ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24, ei chefnogaeth i wneud yr addasiadau i gyllid awdurdodau lleol a chyrrff iechyd a oedd yn angenrheidiol i ddigolledu Cronfa Gyfunol Cymru. O ganlyniad, fe ofynnodd Pwyllgor Cyllid y Senedd i ni ohirio'r cynnig hwn tan ein Hamcangyfrif ar gyfer 2024-25. Mae'r ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu effaith y newid arfaethedig ar ein ffioedd ar gyfer 2024-25. Fel o'r blaen, dim ond os bydd Llywodraeth Cymru'n cadarnhau ei bod yn fodlon gwneud addasiadau canlyniadol i gyllid fel nad oes cost net i Gronfa Gyfunol Cymru ac os bydd y Pwyllgor Cyllid a'r Senedd yn cefnogi'r dull y bydd y newid yn digwydd. Rydym yn ymgynghori ar y cynnig yn yr ymgynghoriad hwn, yn amodol ar y cafeatai hynny.

Byddai'r newid yn berthnasol i'r 22 o brif gynghorau a'r saith bwrdd iechyd ond nid i gyrff eraill mewn Llywodraeth Leol nac Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.

Mae'r elfennau o'n ffi archwilio perfformiad yr ydym yn ceisio'u newid i Gronfa Gyfunol Cymru'n ymwneud â chynnal adolygiadau 'thematig' neu bwnc-benodol sy'n nodweddiadol yn golygu gwneud gwaith archwilio ar draws nifer o gyrff a archwilir (ar lefel Cymru gyfan a/neu ranbarthol) ac yn aml gyda ffocws traws-sector neu system gyfan.

Rydym ni o'r farn bod adolygiadau o'r fath yn ychwanegu gwerth at ein cyfundrefn archwilio gyda'u gallu i roi golwg system-gyfan, gan ein helpu i wella ansawdd gwasanaethau a ddarperir ar gyfer trethdalwyr, a darparu mewnwelediad i ddyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer '[Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru](#)'. Rydym felly'n awyddus i gyflawni'r adolygiadau hyn mewn modd mor hyblyg ac effeithlon â phosibl. Roedd y cyfyngiadau allweddol a bwysleisiwyd gennym ynglŷn â'r model cyllido cyfredol yn ymwneud â'r canlynol:

- anhyblygrwydd posibl yn y ffordd yr ydym yn lledaenu canfyddiadau – sy'n codi o unrhyw ddisgwyliad gan gyrff a archwilir sy'n talu ffioedd y byddem fel rheol yn darparu allbwn sy'n ymwneud yn benodol â'r corff hwnnw; a hefyd
- cymhlethdod trafodaethol – o ystyried yr angen i daro cydbwysedd wrth godi tâl am amser ar draws codau lluosog ar y ddalen amser a chyda'r gofynion i godi 'dim mwy o dâl na'r gost lawn' a geir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, sy'n golygu bod rhaid i ni fod yn ofalus nad oes trawsgymhorthdal o un corff i gorff arall.

Fel ar gyfer 2023-24, wrth benderfynu faint o gyllid y byddem yn anelu at ei newid i Gronfa Gyfunol Cymru, rydym yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng gwaith a gyllid yn lleol a gwaith a gyllid trwy Gronfa Gyfunol Cymru, ac yn cydnabod bod ffrydiau cyllido presennol eraill Cronfa Gyfunol Cymru eisoes yn darparu cyfle ar gyfer gwaith trawsbynciol. Yr egwyddorion allweddol yw:

- cadw digon o ffi o waith archwilio lleol i roi cymorth i gyflawni gwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyrff unigol a archwilir, gan gynnwys asesu risg, archwilio materion llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol (gan gynnwys archwiliadau o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith), a phrosiectau archwilio pwrpasol sy'n codi o'n hasesiad lleol o risgiau;
- sicrhau y cedwir digon o ffi o waith archwilio lleol i gefnogi ein hymgylltiad lleol rheolaidd â chyrff a archwilir, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch arweinwyr mewn cyrff a archwilir, a phresenoldeb yng nghyfarfodydd byrddau, cynghorau a phwyllgorau fel y bo angen; a hefyd
- cymhwyso'r cynnig i gyrff mwy a archwilir (prif gynghorau a byrddau iechyd) y mae ein gwaith thematig yn fwy nodweddiadol berthnasol iddynt.

Rydym wedi ystyried barn cyrff a archwilir, a fynegwyd yn ymarfer ymgynghori'r llynedd, sy'n gwerthfawrogi'r mewnwelediad o'n gwaith archwilio lleol gan hefyd ddeall manteision y cynigion ar gyfer astudiaethau mwy thematig. Mae'r newid arfaethedig felly'n llai nag a ddisgwylid yn wreiddiol.

Rydym yn disgwyl y byddwn yn lleihau'r ffioedd a godir am ein gwaith archwilio perfformiad lleol o oddeutu 15% ar gyfer Llywodraeth Leol a chwarter ar gyfer cyrff lechyd (tua £0.9 miliwn) ac yn newid y cyllid ar gyfer y gwaith hwn i Gronfa Gyfunol Cymru. I ddigolledu Cronfa Gyfunol Cymru am y newid hwn, byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru addasu dyraniadau cyllid mewn modd cyfatebol.

Byddem yn croesawu eich barn ar ôl ystyried pa un a ydych yn cefnogi'r dull arfaethedig hwn.

## ISA315 ac ansawdd archwilio

Mae ein harchwiliadau o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a blynyddoedd yn y dyfodol yn cael eu cynnal dan safon archwilio ddiwygiedig (ISA 315 Adnabod ac Asesu'r Risgiau o Gamddatgan yn Berthnasol). Mae'r safon ddiwygiedig hon yn cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar sut y mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio ac felly ar yr archwiliad ar y cyfan.

Ein hasesiad cychwynnol ni o effaith y cymysgedd mwy cyfoethog hwn o sgiliau oedd cynnydd cyfartalog posibl yng ngraddfeydd y ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol, sef rhwng 12% a 18%. Roedd y cynnydd gwirioneddol mewn ffioedd i gyrrff Llywodraeth Leol ar gyfer archwiliadau o gyfrifon 2022-23 yn 15% ar gyfartaledd – o'i gymharu â'r codiadau sylweddol uwch a amcangyfrifwyd gan gwmnïau archwilio'r sector preifat. Roedd y cynnydd hwn ar y cyfan yn cynnwys oddeutu 10% o ganlyniad i roi ISA315 ar waith, gyda'r gweddill yn deillio o gyfraddau ffioedd uwch ar gyfer y flwyddyn.

## Graddfeydd drafft ein ffioedd ar gyfer cyrrff llywodraeth leol

Mae gweddill y ddogfen hon yn darparu'r graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrrff llywodraeth leol ac ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r graddfeydd yn dangos yr ystod o ffioedd yr ydym yn disgwyl eu codi ar gyrrff nodweddiadol a archwilir yn y sector hwnnw gydag union ffioedd yn cael eu pennu mewn ymateb i amgylchiadau lleol. Nid yw'r graddfeydd hyn yn ofynnol ar gyfer unrhyw sector arall.

Byddwn yn mawr groesawu eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 10 Hydref 2023, i oleuo adolygiad y Senedd o'n Hamcangyfrif a'n Cynllun Ffioedd Drafft ar gyfer 2024-25.

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

- Rydym yn gwahodd eich barn ynglŷn â pharhau i gyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar sail rad-ac-am-ddim.
- Mae'n ofynnol inni ymgynghori ar raddfeydd ffioedd a'u rhagnodi am baru data ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio'i bwerau paru data statudol dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn hynod effeithiol ar gyfer canfod ac atal twyll a gordaliadau. Canfu ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £6.5 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu'r arbedion cronus i £49.4 miliwn ers 1996.
- Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi ariannu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol trwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn wedi'i fwriadu i annog sefydliadau i gyfranogi ar sail wirfoddol ac i symleiddio'r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol. Fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth, caiff y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol eu dangos yn **Arddangosyn 2**.

### Arddangosyn 2: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

#### Ffi 2024-25

Awdurdodau unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstablaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol	Dim
Cyfranogwyr gwirfoddol	Dim
Gall pob cyfranogwr hefyd gael mynediad at Wiriwr Ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (App Check)	Dim

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol

- 5 Rydym yn gwahodd eich barn ynglŷn â'r graddfeydd ffioedd arfaethedig a fydd yn gymwys i gyrff Llywodraeth Leol ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24 ac ar gyfer gwaith archwilio Perfformiad 2024-25.
- 6 Mae graddfa ein ffioedd archwilio cyfrifon yn ystyried y cynnydd cyfartalog yng nghyfraddau'r ffioedd fel a nodir yn **Arddangosyn 1**. Fel a nodir uchod, rydym yn parhau i adolygu effaith ISA315 a byddwn yn adlewyrchu'r canlyniad yn ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2024-25 a fydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2024.

### Awdurdodau unedol

#### Arddangosyn 3: graddfa ffioedd drafft am archwilio cyfrifon 2023-24

Gwariant Gros £ miliwn	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
100	145	170	196	159
200	174	205	236	191
300	194	228	262	213
400	209	246	283	230
500	222	261	301	244
600	233	274	316	257
700	243	286	329	267
800	252	296	341	277
900	260	306	352	286
1,000	267	314	362	294
1,100	274	323	371	302
1,200	281	330	380	309

- 7 Mae graddfa arfaethedig ein ffioedd archwilio perfformiad yn ystyried y newid arfaethedig a fyddai'n golygu bod oddeutu 15% o'n gwaith perfformiad lleol mewn Awdurdodau Unedol yn cael ei gyllido gan Gronfa Gyfunol Cymru o fis Ebrill 2024.

#### Arddangosyn 4: graddfa ddrafft y ffioedd am waith archwilio perfformiad 2024-25

Yr holl awdurdodau unedol	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	90	96	109	112

#### Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol

#### Arddangosyn 5: graddfa ddrafft y ffioedd am archwilio cyfrifon 2023-24

Yr holl gronfeydd pensiwn	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	45	56	60	48

#### Awdurdodau Tân ac Achub

#### Arddangosyn 6: graddfa ddrafft y ffioedd am archwilio cyfrifon 2023-24

Gwariant Gros £ miliwn	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
20	42	50	57	47
40	51	60	69	56
60	57	67	77	63
80	61	72	83	68
100	65	77	88	72

**Arddangosyn 7: graddfa ddrafft y ffioedd am waith archwilio perfformiad 2024-25**

Pob awdurdod tân ac achub	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	18	18	18	17

**Awdurdodau Parciau Cenedlaethol****Arddangosyn 8: graddfa ddrafft y ffioedd am archwilio cyfrifon 2023-24**

Gwariant Gros £ miliwn	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
2	26	31	36	29
4	32	37	43	35
6	35	41	48	39
8	38	45	51	42
10	40	48	55	44

**Arddangosyn 9: graddfa ddrafft y ffioedd am waith archwilio perfformiad 2024-25**

Pob awdurdod parc cenedlaethol	Ystod y ffioedd			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
	22	24	27	22

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

- 8 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol yn ardal pob heddlu – y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaid. Mater i archwilwyr ei bennu fydd sut i rannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff yn ardal heddlu penodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddir ar waith gan y naill gorff a'r llall.

### Arddangosyn 10: graddfa ddrafft y ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24

Gwariant Gros Cyfunol y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaid £ miliwn	Ystod gyfunol y ffioedd ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaid			Y Flwyddyn Flaenorol
	Isafswm £'000	Canolrif £'000	Uchafswm £'000	Canolrif £'000
50	73	84	96	78
100	86	100	113	93
150	95	110	125	102
200	102	118	134	110
250	107	125	142	116
300	112	131	149	122
350	117	136	155	126



## Cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant blyneddol o dan £2.5 miliwn

- Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru'n ddarostyngedig i gyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig.
- Ym mis Hydref 2020, fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur a oedd yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel a nodir yn **Arddangosyn 11**.

### Arddangosyn 11: cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned

	Grŵp A	Grŵp B	Grŵp C
Blwyddyn 1	Profi trafodion	Gweithdrefnau cyfyngedig	Gweithdrefnau cyfyngedig
Blwyddyn 2	Gweithdrefnau cyfyngedig	Profi trafodion	Gweithdrefnau cyfyngedig
Blwyddyn 3	Gweithdrefnau cyfyngedig	Gweithdrefnau cyfyngedig	Profi trafodion

- Mae taliadau am y gwaith hwn yn seiliedig ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad yn ôl y cyfraddau ffioedd a nodir yn **Arddangosyn 1** ar **dudalen 8**.
- Dan amgylchiadau lle mae ar yr archwilydd angen tystiolaeth bellach i gyflawni ei gyfrifoldebau'n iawn, gan gynnwys yn dilyn cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd, bydd gwaith profi ychwanegol yn cael ei wneud i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.
- Pwysleisir y bydd y ffi wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn ddibynnol ar yr amser a weithiwyd mewn gwirionedd ar yr archwiliad penodol hwnnw. Mae'r ystod ffioedd a ddarperir yn **Arddangosyn 12** at ddibenion dangosol yn unig.

## Arddangosyn 12: taliadau amcangyfrifedig ar sail amser am archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2023-24

	Band 1 (<£10k)	Band 2 (<£25k)	Band 3 (<£50k)	Band 4 (<£100k)	Band 5 (<£500k)	Band 6 (>£500k)
Archwilio trafodion	£160 – £195	£181 – £213	£245 – £300	£379 – £463	£676 – £809	£899 – £1160
Gweith-drefnau cyfyngedig	£117 – £138	£145 – £172	£145 – £172	£223 – £266	£223 – £266	£223 – £266

## Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol

- Ac eithrio'r mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer fel a ddangosir uchod, ceir nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae'r modd yr ydym yn rhagnodi'r raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion o ran adnoddau'n ffioedd yn seiliedig yn uniongyrchol ar gostau gwneud y gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a nodir yn **Arddangosyn 1**. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o'r Cydbwyllgorau Corfforedig. Mae'n dal i fod yn wir ar gyfer archwiliadau o'r gyrff hyn ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio archwiliadau.
- Ar gyfer pob math o gorff llywodraeth leol, i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae weithiau'n angenrheidiol bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletsyddau cyffredinol (y rhai a nodir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn perthynas â herio gan etholwyr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy'n ofynnol.
- Gall archwilwyr wneud gwaith ardystio grantiau yng nghyrrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol hefyd. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn ddibynnol ar nifer y cynlluniau y mae'n rhaid eu harchwilio a nifer y gyrff a archwilir sy'n cyfranogi yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn fesul awr ac mae'n adlewyrchu'r maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion mewn perthynas â'r grant dan sylw fel a nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o'r cyfrannau perthynol o raddau staff  
archwilio i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith ardystio grantiau**

<b>Gradd staff</b>	<b>Cymysgedd o staff ar gyfer grantiau cymhleth</b>	<b>Cymysgedd o staff ar gyfer yr holl grantiau eraill</b>
	<b>%</b>	<b>%</b>
Cyfarwyddwr ymgysylltu	1 i 2	0 i 1
Rheolwr Archwilio	4 i 6	1 i 2
Arweinydd Archwilio	18 i 21	12 i 16
Archwilydd/hyfforddai graddedig/prentis	71 i 77	81 i 87

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon



Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas  
Stryd Tyndall  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.